# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 12 Hydref 2016

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPPIA@cynulliad.cymru

## 09.15 - 09.30 - Cyfarfod anffurfiol

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Ymchwiliad i waith ieuenctid - Sesiwn dystiolaeth 3 -Llywodraeth Cymru

(09.30 - 10.45) (Tudalennau 1 - 32)

Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Kara Richards, Pennaeth Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid
Sam Evans, Uwch-reolwr Strategaeth Gwaith Ieuenctid

**Dogfennau atodol:**

Papur Ymchwil

CYPE(05)-07-16 - Papur 1

CYPE(05)-07-16 - Papur 2 - Crynodeb o ymgynghoriad y Pwyllgor â phlant a phobl ifanc

## Egwyl - 10.45 - 11.00

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 3 Trafodaeth gyda'r Athro Syr Ian Diamond ar yr Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr Cymru

(11.00 - 12.30) (Tudalennau 33 - 57)

Yr Athro Syr Ian Diamond

**Dogfennau atodol:**

Papur Ymchwil

CYPE(05)-07-16 - Papur 3

## 4 Papurau i'w nodi

**Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol - rhagor o wybodaeth yn dilyn y cyfarfod ar 14 Medi**

(Tudalennau 58 - 60)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(05)-07-16 - Papur 4 - i'w nodi

**Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant - rhagor o wybodaeth yn dilyn y llythyr a anfonwyd ar 15 Medi ynglŷn â'r cam gweithredu yng nghyfarfod 13 Gorffennaf**

(Tudalen 61)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(05)-07-16 - Papur 5 - i'w nodi

**Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

(Tudalennau 62 - 65)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(05)-07-16 - Papur 6 - i'w nodi

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem nesaf.

(12.30)

## 6 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor

(12.30 - 12.40) (Tudalennau 66 - 78)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(05)-07-16 - Papur 7 - preifat

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Ymchwiliad i Waith Ieuenctid

**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Alun Davies AC**

---

## GWASANAETHAU GWAITH IEUENCTID YNG NGHYMRU

Mae gan waith ieuenctid botensial mawr i gyfoethogi bywydau pobl ifanc yng Nghymru - boed hynny drwy'r profiadau y mae'n eu cyflwyno iddynt neu'r cymorth a gynigir ganddo. Addysgwyr yw gweithwyr ieuenctid, boed mewn clwb ieuenctid cymunedol, ar y strydoedd neu drwy gefnogi addysg ffurfiol. Mae gwaith ieuenctid yn darparu ac yn hwyluso amgylchedd lle y gall pobl ifanc ymlacio, cael hwyl, teimlo'n ddiogel, a theimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi. Drwy gyfleoedd addysgol a phrofiadau heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol, y bwriad yw i weithwyr ieuenctid herio pobl ifanc i wella eu cyfleoedd bywyd.  Gall pobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gwaith ieuenctid gynyddu eu cymhwysedd emosiynol; dysgu sgiliau adeiladu tîm a sgiliau cyfathrebu; a dysgu sut i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

Darperir gwaith ieuenctid yng Nghymru drwy wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol. Yng Nghymru, mae'r gwasanaeth ieuenctid yn hawl gyffredinol, sydd ar gael i bob person ifanc. Drwy'r Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, adran 123 (1), mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid, sicrhau darpariaeth o'r fath, neu gymryd rhan yn y broses o ddarparu'r gwasanaethau hyn.

Mae canlyniadau allweddol ein harchwiliad cenedlaethol o waith ieuenctid yng Nghymru 2014-15 yn dangos y canlynol:

- Roedd tua 106,450 o bobl ifanc yn aelodau cofrestredig o ddarpariaeth Gwaith Ieuenctid yn y sector statudol yng Nghymru. Roedd y ffigur hwn yn cynrychioli 18 y cant o'r boblogaeth 11 i 25 oed yng Nghymru. Roedd tua 100,600 o'r aelodau hyn yn 11-19 oed, gan gynrychioli 31 y cant o'r boblogaeth 11-19 oed. Roedd y cyfrannau a adroddwyd yn amrywio o 54 y cant yn Wrecsam i 15 y cant ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

- Ym mis Mawrth 2015, roedd 803 o staff rheoli a darparu Gwaith Ieuenctid cyfwerth ag amser llawn yn gweithio ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru. Staff rheoli oedd 9 y cant (71) o'r swyddi cyfwerth ag amser llawn hyn a staff rheng flaen gwaith ieuenctid oedd 91 y cant (732) (craidd ac wedi'u hariannu'n allanol).

- Roedd y gymhareb o aelodau cofrestredig 11-25 oed i staff gwaith ieuentid cyfwerth ag amser llawn (heb gynnwys staff rheoli) yn 145 o bobl ifanc fesul gweithiwr yn 2014-15. Ar gyfer y boblogaeth 11-19 oed, roedd y gymhareb yn 137:1. (Noder fod y cymarebau hyn yn adlewyrchu cyfanswm yr aelodau cofrestredig ac nid y presenoldeb mewn sesiynau).

- Cafodd tua 12,400 o bobl ifanc achrediad a gydnabyddir yn genedlaethol yn ystod y flwyddyn, sy'n cynrychioli 12 y cant o'r aelodau cofrestredig. Adroddwyd bod tua 18,000 o bobl ifanc (17 y cant o'r holl aelodau cofrestredig) wedi cael achrediad lleol.

- Mae'r math o brosiectau unigol hefyd yn cael eu cofnodi fel rhan o'r archwiliad. Y prosiectau mwyaf niferus oedd Clybiau Ar Ôl Ysgol, sef 1,565 yng Nghymru a Chwaraeon a Gweithgaredd Corfforol, sef 1,464. Darparwyd 19 y cant o'r holl brosiectau yn gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg. Dangosodd yr archwiliad hefyd fod 538 o brosiectau ar gyfer pobl ifanc ddu a lleiafrifoedd ethnig, 54 o brosiectau ar gyfer grwpiau lleiafrifol eraill, 118 o brosiectau rhyw benodol a 111 o brosiectau ar gyfer troseddwyr ifanc.

Mae pob awdurdod lleol yn cefnogi'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, mae ganddynt ganolfannau ieuenctid, clybiau ieuenctid ac mae gan y mwyafrif dimau stryd.

Mae amrywiol gyfarwyddiaethau'n gyfrifol am Wasanaethau Ieuenctid ar draws yr awdurdodau lleol, gan gynnwys cyfarwyddiaethau addysg a chymunedau. Mae nifer fach o wasanaethau ieuenctid wedi uno â Thimau Troseddau Ieuenctid, i ddarparu model cymorth mwy integredig i bobl ifanc. Mae trefniadau Gwasanaeth Ieuenctid awdurdodau lleol yn amrywio gan eu bod yn anelu at ddiwallu anghenion lleol.

**STRATEGAETH GWAITH IEUENCTID GENEDLAETHOL CYMRU (2014-2018)**
Cafodd Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru ei lansio ym mis Chwefror 2014, gan bennu'r cyfeiriad ar gyfer sefydliadau gwaith ieuenctid am y 4 blynedd nesaf. Ei nod yw cynyddu i'r eithaf rôl a chyfraniad darpariaeth gwaith ieuenctid at ymgysylltiad pobl ifanc yn eu haddysg prif ffrwd a'u llwyddiant yn hynny o beth. Mae'r strategaeth yn integreiddio â'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid ac yn ei hategu.

**Nod ein strategaeth yw ceisio sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau posibl o'n sefydliadau Gwaith Ieuenctid a manteisio ar arbenigedd, brwdfrydedd ac ymroddiad Gweithwyr Ieuenctid Cymru i wella bywydau ein pobl ifanc.**

**Gwnaed cynnydd sylweddol o ran cyflawni'r ymrwymiadau yn y strategaeth.**

- Lansiwyd ein **Marc Ansawdd** yn ystod hydref y llynedd a bydd hyn yn cefnogi ac yn sicrhau bod darpariaeth gwaith ieuenctid o ansawdd ar gael i bobl ifanc. Gall sefydliadau ddefnyddio'r Marc Ansawdd i hunanasesu, i gynllunio ar gyfer gwella ac i ennill y Marc Ansawdd a gydnabyddir yn genedlaethol. Mae 3 sefydliad wedi bod yn llwyddiannus wrth gyflawni'r Marc Ansawdd Efydd, ac mae'r broses o'i gyflwyno'n ehangach ar draws Cymru bellach wedi dechrau.

- Rydym yn datblygu **Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol** ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru. Nod hyn yw cryfhau gallu'r sector i ddangos canlyniadau ac effaith gwaith ieuenctid. Daeth ymgynghoriad 12 wythnos i ben ym mis Mehefin; hwylusodd Plant yng Nghymru hefyd ymgynghoriad â phobl ifanc. Mae fy swyddogion wrthi'n adolygu'r ymatebion.

- Rydym wedi **gwneud ymchwil i waith ieuenctid mewn ysgolion**, o safbwynt gwaith ieuenctid ac ysgolion. Mae'r gwaith hwn wedi ein helpu i ddeall y gwerth y mae gwaith ieuenctid yn ei ychwanegu ochr yn ochr ag addysg ffurfiol a'r gwahanol ddulliau sy'n cael eu mabwysiadu i gyflwyno gwaith ieuenctid mewn ysgolion. Mae hefyd yn ein cynorthwyo wrth i'r cwricwlwm ysgol newydd esblygu.

- Rydym wedi **sefydlu Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid** i ddod ag arbenigedd ynghyd ac i roi cyngor i Weinidogion Cymru ar yr heriau a'r materion allweddol.

- Un o nodweddion allweddol llawer o broffesiynau yw'r gofyniad i gofrestru gyda chorff rheoleiddio proffesiynol sy'n gosod ac yn cynnal safonau proffesiynol, gan gadw hyder y cyhoedd a dangos ymrwymiad ar y cyd i broffesiynoldeb. Er mwyn cydnabod hyn, byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth ar **gofrestru'r gweithlu** a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weithwyr Ieuenctid gofrestru gyda Chyngor Addysg y Gweithlu o 1 Ebrill 2017 ymlaen.

- Rydym wedi gwneud ymchwil i'r gefnogaeth a gafodd **mudiadau gwaith ieuenctid gwirfoddol** a'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt. Mae'r gwaith hwn wedi ein helpu i ddeall gwir werth rhwydweithio ar gyfer y sector gwirfoddol.

- Rydym wedi gwneud ymchwil i gyfraniad gwaith ieuenctid at **Strategaeth y Gymraeg** . Roedd yr argymhellion a ddeilliodd o'r ymchwil hwn yn cynnwys ystyried hyfforddiant iaith Gymraeg o fewn pecynnau hyfforddiant i weithwyr ieuenctid, mudiadau gwaith ieuenctid yn defnyddio'r cyfryngau digidol, rhannu arferion da a gweithio mewn partneriaeth, ac maent yn cael eu hystyried gan fy swyddogion ar hyn o bryd.

**Siarter Gwaith Ieuenctid Cymru**
Ym mis Medi 2015, derbyniodd y Llywodraeth flaenorol argymhelliad y Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid i sefydlu is-grŵp wedi'i gadeirio'n annibynnol i ddatblygu cynnig ieuenctid craidd a rhoi cyngor ar sut y gellir cyflawni hyn.

Penodwyd Tom Wylie i gadeirio'r grŵp ac i arwain y gwaith hwn. Mae gan Wylie brofiad helaeth o ddatblygu polisi ieuenctid yn y Deyrnas Unedig ac Ewrop. Mae hyn wedi cynnwys cadeirio grwpiau ar ran yr Ysgrifennydd

Gwladol dros Addysg yn Lloegr, ar gyfer Llywodraeth Gogledd Iwerddon ac ar gyfer Cyngor Ewrop.

Gweithiodd Wylie yn agos gydag ystod eang o randdeiliaid ar draws y sector gwaith ieuenctid i ddatblygu Siarter Gwaith Ieuenctid Cymru. Mae'r Siarter yn nodi'r disgwyliadau sylfaenol ar gyfer gwaith ieuenctid i bobl ifanc yng Nghymru ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Mawrth.

Gan edrych i'r dyfodol, rydym eisiau gweld gwaith ieuenctid yn parhau i chwarae ei ran mewn:

- cefnogi pobl ifanc i aros mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth;
- parhau i hyrwyddo iechyd a lles pobl ifanc;
- parhau i hyrwyddo cyfranogiad yn y gymuned a bywyd dinesig;
- parhau i leihau gweithgaredd gwrthgymdeithasol.

**Gwaith Ieuenctid mewn ysgolion**

O ran cefnogi person ifanc i aros mewn addysg, gall Gweithiwr Ieuenctid wneud byd o wahaniaeth. Mae ymchwil wedi dangos y gall gwaith ieuenctid helpu i wella presenoldeb, cyrhaeddiad ac ymddygiad disgyblion.

Yn ystod Haf 2015 derbyniodd y Llywodraeth bob un o'r 68 o argymhellion yn adroddiad yr Athro Graham Donaldson - Dyfodol Llwyddiannus. Ers hynny rydym wedi dechrau ar y daith gyffrous a thrawsnewidiol i ddatblygu cwricwlwm newydd i Gymru. Rydym yn cydnabod y rôl bwysig y gall y sector gwaith ieuenctid ei chwarae o ran cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm newydd, yn enwedig mewn perthynas â'r Pedwar Diben lle mae pobl ifanc yn dod yn:

- Dysgwyr uchelgeisiol, galluog
- Unigolion iach, hyderus
- Cyfranwyr mentrus, creadigol
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus.

Yn unol â'r camau gweithredu a nodir yn Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru 2014-18, comisiynwyd ymchwil gennym i effaith y ddarpariaeth gwaith ieuenctid mewn ysgolion o safbwynt ysgolion. Nododd yr ymchwil nifer o feysydd cwricwlwm allweddol y mae gweithwyr ieuenctid yn cyfrannu atynt a chanfod bod gwaith ieuenctid yn yr ysgol yn darparu cyswllt hanfodol rhwng pobl ifanc, teuluoedd, cymunedau a'r ysgol, sy'n gwella cyfleoedd addysgol a chyfleoedd bywyd i ddisgyblion.

Rydym yn cydnabod y rhan bwysig y mae **Sefydliadau'r Trydydd Sector** yn ei chwarae mewn cefnogi pobl ifanc a'u cymunedau. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu £5.593 miliwn yn 2016/17 i gefnogi Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) a'r 19 o Gynghorau Gwirfoddol Sirol sy'n cwmpasu pob ardal Awdurdod Lleol yng Nghymru. Mae'r cyllid hwn yn galluogi CGGC a'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol i helpu sefydliadau cymunedol a gwirfoddol lleol i ffynnu.

Ym mis Ionawr 2016 dywedodd CGGC fod 33,000+ o sefydliadau'r trydydd sector yng Nghymru, ac mae 7.74% (2,554) o'r rhain yn Grwpiau Ieuenctid sy'n cefnogi pobl ifanc ledled Cymru.

Er mwyn codi proffil y sefydliadau yn y sector gwirfoddol sy'n gweithio yn y maes, comisiynwyd Cordis Bright i ymgymryd ag ymarfer mapio cenedlaethol i gasglu gwybodaeth am ddarpariaeth y sector gwirfoddol a all gynorthwyo pobl ifanc rhwng 14-18 i ymgysylltu neu barhau i ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Nodau'r ymarfer mapio oedd; gwella mapiau darpariaeth yr awdurdodau lleol a ddefnyddir gan weithwyr arweiniol sy'n cefnogi pobl ifanc; annog y sectorau a gwirfoddol a chyhoeddus i weithi'n agosach mewn patneriaeth; a chefnogi'r broses o gyflawni'r Ffrawmaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn ddiweddarach yn yr Hydref.

**CYLLID AR GYFER GWAITH IEUENCTID**

Rydym wedi darparu £2,756,000 ar ffurf **Grant Cymorth Strategaeth Gwaith Ieuenctid** yn flynyddol i'r sector gwaith ieuenctid statudol, i gefnogi'r broses o weithredu'r strategaeth gwaith ieuenctid.

Yn 2015 cyflwynwyd ein **Grant Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol** 3 blynedd gan ymrwymo swm blynyddol o £679,000 i 7 o fudiadau gwirfoddol cenedlaethol sy'n darparu gwaith ieuenctid ledled Cymru.

Mae awdurdodau lleol yn derbyn cyllid craidd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi darparu gwasanaethau cymorth ieuenctid drwy eu **Grant Setliad Refeniw**. Ffrwd ariannu heb ei chlustnodi yw'r Grant Setliad Refeniw ac felly awdurdodau lleol sy'n penderfynu faint o'r cyllid hwn sy'n cael ei ddefnyddio er mwyn diwallu eu hanghenion a'u blaenoriaethau lleol orau, gan gynnwys eu darpariaeth gwaith ieuenctid.

Dangosodd ein harchwiliad gwaith ieuenctid cenedlaethol yn 2014-15 mai cyfanswm yr incwm ar gyfer Gwaith Ieuenctid yn 2014-15 oedd £36.6 miliwn ac roedd cyfanswm cyllidebau Gwaith Ieuenctid craidd yn £22.9 miliwn. Yn ychwanegol at y gyllideb Gwaith Ieuenctid graidd, roedd cyfanswm y gyllideb ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru ar gyfer 2014-15 yn cynnwys incwm o £13.8 miliwn o ffynonellau eraill, a oedd yn cyfrif am 38 y cant o gyfanswm yr incwm. Cyfrannodd 'Ffynonellau Cenedlaethol' y mwyafrif (£9.9 neu 72 y cant) o'r cronfeydd hyn, a darparwyd £3.8 miliwn o hynny gan Cymorth. Ffynonellau eraill o incwm ychwanegol yn 2014-15 oedd: Cymunedau yn Gyntaf (£0.9 miliwn), cyllid Ewropeaidd (£0.3 miliwn) a Llwybrau 14-19 (£0.2 miliwn).

**LLAIS POBL IFANC**

Gwyddom fod gwaith ieuenctid yn annog cyfranogiad gweithgar ac yn cefnogi pobl ifanc i gael llais.  Rydym yn glir y bydd cyfranogiad pobl ifanc yn parhau i fod yn allweddol wrth ddatblygu a chyflawni ein deddfwriaeth, ein polisïau a'n rhaglenni. Byddwn yn parhau i ariannu model cenedlaethol, sef ‘Cymru Ifanc’, i alluogi lleisiau plant a phobl ifanc i gael eu clywed. Caiff 'Cymru Ifanc' ei

hwyluso gan 6 o fudiadau plant /ieuenctid; y prif bartner yw corff ymbarél ar gyfer sefydliadau plant yn y sector gwirfoddol a chanolfan ragoriaeth ar gyfer hawliau plant.

CYPE(05)-07-16 – Papur 2 – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

## Ymchwiliad i Wasanaethau Ieuenctid: Dadansoddiad

Ymgynghorodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg â phobl ifanc 11-25 oed fel rhan o'i *Ymchwiliad i Waith Ieuenctid*. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2016 a chafwyd **1,511** o ymatebion gan bobl ifanc.

### *Dyma grynodeb o'r hyn a ddywedodd pobl ifanc:*

01. Ydych chi'n defnyddio gwasanaethau ieuenctid (fel clwb neu brosiect ieuenctid)?

Ydw 51.93%

Nac ydw 48.07%

(Wrth ddehongli'r ystadegau hyn mae'n berthnasol nodi bod posibiliiad i'r rhifau gael eu heffeithio gan ymgysylltiad penodol

### I'r rhai a atebodd 'ydw', gofynnwyd:

02. Pryd?

Yn y dydd 13.90%

Gyda'r nos 37.54%

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales



Ar ôl ysgol/coleg 32.59%

Ar benwythnosau 15.97%

03. Pa mor aml?

Y rhan fwyaf o ddyddiau 21%

Tua unwaith yr wythnos 58.45%

Yn llai na hynny 12.33%

Arall 8.13%

Roedd yr atebion eraill yn cynnwys:

- Yn ystod y gwyliau 6.67%
- Pan gynhelir digwyddiad 8.33%
- Bob pythefnos 18.33%

04. Ble?

Gallaf gerdded yno 51.09%

Mae angen i mi ddefnyddio cludiant i gyrraedd yno 48.91%

Gallwch ddweud wrthym beth yw enw y prosiect os dymunwch:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales



Ymysg y clybiau a phrosiectau a enwyd oedd:

- Geidiaid/Sgowtiaid/cadetiaid 9.69%
- Chwaraeon/celfyddydau perfformio/cerddoriaeth 11.63%
- Ffermwyr ifanc 42.25%
- Gofalwyr ifanc 4.65%
- Fforymau a chynghorau ieuenctid 2.71%
- Clybiau ieuenctid 15.50%
- Yr Urdd 1.16%
- Heb gategori 12.41%

05. A ydych yn gwybod pwy sy'n ei gynnal?

Y cyngor 34.75%

Elusen 20.93%

Ysgol 3.15%

Dim yn gwybod 25.31%

Eraill 15.86%

Cymru y Llywodraeth Ieuenctid Cwmni preifat
Cenedlaethol CFfI lleol yr Eglwys
Sefydliad Cymunedau yn Gyntaf
Clwb rhieni gwirfoddolwyr Canolfan

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales



06. Sut y byddech chi'n ei ddisgrifio?

Gwael 1.02%
Eithaf da 8.30%
Da 19.36%
Da iawn 27.51%
Ardderchog 43.81%

07. Pa fath o bethau ydych chi'n wneud yno?

Canu Cymru Hyfforddiant Dringo Siarad Cyhoeddus Materion Pêl-droed Cymorth Dysgu Lleol Gweithgareddau Codi Arian Gemau Celf a Chrefft Chwaraeon Pobl Ifanc Ffrindiau Nofio Gwibdeithiau Ffitrwydd Llawer

08. Newidiadau o ran oriau neu weithgareddau'r prosiect.

Mae'r prosiect yn agored yn fwy aml nag yr arferai fod/rydym ni'n gwneud mwy o weithgareddau 19.25%



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Dim newid o ran oriau na gweithgareddau 56.72%

Mae'r prosiect yn agored yn llai aml nag yr arferai fod/Rydym yn gwneud llai o weithgareddau 24.03%

## I'r rhai a ddywedodd nad ydynt yn defnyddio gwasanaeth ar hyn o bryd, gofynnwyd:

09. A ydych erioed wedi defnyddio gwasanaeth neu brosiect ieuenctid?

Ydw 53.14%

Nac ydw 46.86%

10. Os oeddech chi'n arfer â defnyddio gwasanaeth neu brosiect o'r fath, pam nad ydych yn ei ddefnyddio bellach?


Rwy'n rhy brysur 21.96%

Dw i ddim eisiau 26.75%

Nid yw'r prosiect/gwasanaeth yn agored erbyn hyn 24.75%

Rheswm arall 26.54%

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales



Roedd yr atebion eraill yn cynnwys:

- Roedd yn ddiflas 6.02%
- Torrwyd yr arian/caeodd y ganolfan 7.52%
- Rwy'n rhy hen/collais ddiddordeb 32.33%
- Heb gategori 54.13%

11. Os nad ydych erioed wedi defnyddio gwasanaeth neu brosiect o'r fath, pam?

Rwy'n rhy brysur 19.91%

Dw i ddim eisiau 33.69%

Wn i ddim am brosiectau neu wasanaethau ieuenctid sy'n agos i'm cartref 33.26%

Rheswm arall 13.14%

Roedd yr atebion eraill yn cynnwys:

- Cafodd ei gau 9.68%
- Dim amser rhydd/gwaith ysgol 4.84%
- Dim prosiectau yn agos i'm cartref 19.35%
- Dim diddordeb 9.68%
- Materion cymdeithasol (ofn mynd, nid oes digon o ffrindiau'n mynd) 8.06%
- Materion cludiant 6.45%
- Heb gategori 41.94%

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales



# I bawb a ymatebodd, gofynnwyd:

12. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ddweud wrthym am wasanaethau / brosiectau ieuenctid?

(gweler y dyfyniadau ar y diwedd)

Dyma'r prif themâu:

- Materion o ran cyllid a chau adnoddau.  26.41%
- Diffyg gwybodaeth a chyhoeddusrwydd am wasanaethau 4.45%
- Dim digon o ddarpariaeth ar gyfer plant hŷn/oedolion ifanc 3.56%
- Yr agwedd wledig/cymunedol 8.30%
- Cefnogaeth a chyngor 1.19%
- Agweddau cadarnhaol 26.41%
- Agweddau negyddol 13.06%
- Heb gategori 16.62%

*Ymddangosodd diffyg darpariaeth Gymraeg yn yr atebion, ond nid oedd hyn yn fesuradwy.*

13. Nodwch eich grŵp oedran.

| | |
|---|---|
| 11 – 13 | 32.22% |
| 14 – 17 | 49.92% |
| 18 – 25 | 17.86% |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales



14. Eich rhyw?

Gwryw 53.53%

Menyw 43.09%

Byddai'n well gennyf beidio â dweud 2.43%

Hoffwn ddefnyddio term wahanol: 0.95%

| |
|---|
| Trawsrywiol/rhyweddhylifol |

15. Ym mha etholaeth ydych chi'n byw?

Blaenau Gwent 5.76%

Pen-y-bont ar Ogwr 8.93%

Caerffili 4.02%

Caerdydd 11.76%

Sir Gaerfyrddin 2.21%

Ceredigion 1.26%

Conwy 2.92%

Sir Ddinbych 2.92%

Sir y Fflint 2.60%

Gwynedd 2.84%

Ynys Môn 0.72%

Merthyr Tudful 0.95%

Sir Fynwy 6.47%

Castell-nedd Port Talbot 1.03%

Casnewydd 4.42%

Sir Benfro 4.82%

Powys 7.73%

Rhondda Cynon Taf 2.68%

Abertawe 2.05%

Torfaen 14.76%

Bro Morgannwg 2.21%

Wrecsam 6.94%

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales



- **<u>Materion o ran cyllid a chau adnoddau.</u>**

1. Roeddwn i wrth fy modd yn mynd i'r clwb ieuenctid ond cafodd clwb ieuenctid Pen-y-cae ei gau ac rwy'n gweld ei eisiau
2. Mae'n drueni ei fod wedi cael ei gau achos roedd yn cadw plant oddi ar y strydoedd
3. Torrodd y cyngor y cyllid a'r grantiau i gyd i'n clwb cymunedol a dywedwyd wrthym nad oedd y grantiau cymunedol ar gael bellach, felly nid oedd modd fforddio cynnal cymaint o bethau. Ni wnaeth neb ofyn i ni.
4. Mae'r clwb roeddwn i'n arfer mynd iddo wedi cau erbyn hyn. Mae'n ddiflas mai darpariaethau ar gyfer pobl ifanc sy'n cael eu torri gyntaf.
5. Dylai cyllid ar gyfer gwasanaethau ieuenctid gael ei ddiogelu. Dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i sicrhau bod arian ar gyfer gwasanaethau ieuenctid yn cael ei wario'n effeithiol.
6. Rwy'n gwybod bod arian yn cael ei dorri, ac mae hynny'n drist oherwydd ein bod wir yn hoffi ein clwb ieuenctid. Rwy'n gwybod na fyddai'r staff yno'n weithwyr ieuenctid oni bai am y clwb ieuenctid hwnnw gan eu bod wedi dechrau yn union fel y gwnaethom ni, sef pobl yn mynd i glwb ieuenctid sydd bellach yn gweithio yno ac yn awyddus i'n helpu ni. Weithiau mae'n ymddangos fel bod pobl yn cael eu trin yn well yno ac yn cael gwneud pethau sy'n fwy o hwyl na'r hyn yr ydym ni'n cael ei wneud, ac mae hynny'n annheg
7. Os nad yw gwasanaeth ieuenctid yn cael ei ariannu'n ddigonol, mae'r staff a phobl ifanc yn digalonni. Mae hefyd yn cyfyngu ar gyfleoedd i bobl ifanc wneud pethau newydd.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales



8. Mae angen i wasanaethau ieuenctid barhau i gael cymaint o gefnogaeth arian cyhoeddus â phosibl. Mae'r cymorth a'r cyfleoedd maent yn eu darparu i bobl ifanc yn amhrisiadwy.
9. Rwy'n credu y dylai agor yn amlach/yn hwy. Dylent gael mwy o arian i wneud pethau llawn hwyl ar gyfer pobl ifanc am ei bod yn ddrud i rieni dalu pan na allent fforddio gwneud hynny. Rwy'n hoffi'r ganolfan ieuenctid am ei bod yn hwyl ac yn lle hapus.
10. Dylai fod rhagor ohonynt yng Nghymru. Mae angen mwy o arian i dyfu mwy o wasanaethau - mae gormod yn cael eu torri gan gynghorau. Ni all pob un o'm ffrindiau ddod iddynt gan eu bod yn byw yn bell o bobman. Mae gweithwyr ieuenctid yn anhygoel ac maent wir yn ein helpu ni - maent yn achub bywydau :)

- <u>**Diffyg gwybodaeth a chyhoeddusrwydd**</u>

11. Byddwn yn mynd petawn i'n gwybod ble maen nhw a mwy amdanyn nhw.
12. Dylai fod rhagor a dylem fod yn fwy ymwybodol o'r rhai lleol

- <u>**Dim digon o ddarpariaeth ar gyfer plant hŷn/oedolion ifanc**</u>

13. Mae llawer ohonynt ar gyfer plant iau yn fwy na neb arall - nid oes dim ar gyfer pobl yn eu harddegau mwyach
14. Byddai'n dda cael grwpiau ieuenctid ar gyfer pobl 18+ oed. Hefyd, grwpiau i ni sydd heb lawer o hyder; cyfle i gyfarfod pobl eraill sy'n teimlo'n debyg

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales



- **Yr agwedd wledig/cymunedol**

15. Mae angen sicrhau bod mwy ar gael i bobl ifanc mewn ardaloedd gwledig, nid yn yr ardaloedd trefol yn unig.

16. Nid oes digon o glybiau ieuenctid neu brosiectau yng nghefn gwlad. Byddai'n rhaid i mi ddal bws 7 milltir yn y naill gyfeiriad neu 11 milltir i'r cyfeiriad arall, ond mae trafnidiaeth gyhoeddus yn dod i ben am 7 y nos, felly byddai'n rhaid i un o fy rhieni fy ngyrru yno ac yn ôl.

- **Cefnogaeth a chyngor**

17. Mae'n lle da os nad oes dim byd arall i chi ei wneud; maent yn eich helpu gydag unrhyw broblemau sydd gennych

- **Agweddau cadarnhaol**

18. Rwy'n teimlo fel eu bod yn wirioneddol dda i bobl sydd â llai o ffrindiau gan eu bod yn rhoi cyfle i wneud ffrindiau.

19. Mae wedi rhoi cymaint o hyder, profiadau a sgiliau bywyd na fyddai'n bosibl i mi eu cael dim unman arall.

20. Mae'n gyfle hollol wych i bobl ifanc fagu hyder, gwneud ffrindiau a datblygu sgiliau.

21. Mae'r fforwm ieuenctid a'r gwasanaeth ieuenctid yn bwysig iawn i ni. Maent yn cadw ni oddi ar y strydoedd ac yn rhoi cyfleoedd newydd i ni i ddysgu pethau gwahanol, i ddysgu sgiliau newydd, i gwrdd â ffrindiau newydd ac i ddatblygu fel pobl ifanc.

22. Mae ein clwb ieuenctid wedi bod yma ers blynyddoedd; aeth fy nhad i'r un clwb ag yr wyf i'n mynd iddo. Mae gweithwyr ieuenctid yn helpu plant i ddeall pethau ac yn eu helpu i wneud pethau newydd.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales



- <u>Agweddau negyddol</u>

23. Mae'r cysyniad o Glybiau Ieuenctid wedi dyddio - mae pobl ifanc angen lle diogel i dreulio eu hamser gyda gweithgareddau dewisol - NID hwyl dan orfodaeth!
24. 'Math' penodol o bobl ifanc sy'n cael eu denu yno ac mae hynny'n golygu nad ydynt yn apelio at bobl eraill.
25. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau ieuenctid yn ymwneud â ffitrwydd/chwaraeon ac felly mae llai o ddewis i'r rhai y mae'n well ganddynt wneud pethau eraill fel cymdeithas ddadlau.
26. Mae syndrom Asperger arnaf ac roedd yn anodd mynd i'r clwb ieuenctid i ddechrau. Roedd Mam eisiau i mi fynd gan fy mod i bob amser yn aros gartref ar ôl ysgol. Ar ôl ychydig, mwynheais fynd yn fawr a nawr mae'n cau oherwydd nad oes cyllid. Ni fydd dim unman i mi fynd gyda'r nos. Roedd yn glwb ieuenctid da iawn ac roedd y staff yn gyfeillgar iawn ac yn help mawr. Roeddwn yn drist iawn ei fod wedi cau.

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**CYPE(05)-07-16 – Papur 3**

Adolygiad Annibynnol o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chylled Myfyrwyr yng Nghymru

Adroddiad terfynol

Crynodeb gweithredol

**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon**
**Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport**

**Rebecca Evans AC/AM**
**Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Social Services and Public Health**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/ Our ref MA-P-VG-6361-16

Lynne Neagle AM
Chair
Children, Young People and Education Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

4 October 2016

Dear Lynne,

During our attendance at the Children, Young People and Education Committee on Wednesday, 14 September 2016, we agreed to provide the committee with additional information.

The committee will wish to note the following:

Number of school nurses in Wales

The most recently published statistics show that as of 30 September 2015 there were 222 Whole Time Equivalent nurses working in mainstream schools in Wales (comprehensive schools and their feeder primary schools). There has been a 42.6% increase in the number since 2009. This figure does not include nurses employed directly by special schools.

The above figure includes non case holding managers, fixed term officers who do vaccinations and other nursing staff who work only part of their time with schools. If these officers are removed from the total so that the number only includes practising school nurses and broken down by Health Board the following will apply:

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

| Health Board | School Nurse head count | WTE |
|---|---|---|
| Abertawe Bro Morgannwg | 32 | 25.49 |
| Cardiff & Vale | 26 | 20.27 |
| Powys | 13 | 8.30 |
| Cwm Taf | 23 | 19.00 |
| Aneurin Bevan | 34 | 27.40 |
| Betsi Cadwaladr | 32 | 20.70 |
| Hywel Dda | 39 | 26.04 |
| **TOTAL** | **199** | **147.20** |

The number of practising nurses stated above is mainly Registered Specialist Community Public Health Nurses - School Nurses (SCPHN SN) and with the remainder being Registered Nurses who have not undertaken the specialist school nursing course but have the required competencies to fulfil the role.

A Framework for a School Nursing Service for Wales (2009) review/refresh update

As the Framework for a School Nursing Service for Wales has been in place for eight years, a review of its application across Wales was commissioned. The Chief Nursing Officer (CNO) had received feedback from the All Wales Health Visitor and School Nurse Forum that indicated that there were some inconsistencies in the way the 2009 Framework was being implemented, for example, not all schools had nurses 52 weeks a year, some had them in term time only. In addition, as the 2009 Framework did not cover special schools it was felt that a dedicated review of the health needs of children accessing such schools should also be undertaken to determine whether specific provision should be developed as part of a revised Framework. A pilot using a multidisciplinary 'team around the family' approach was undertaken in three special schools in the Abertawe Bro Morgannwg University Health Board catchment area in 2015. Evidence from this pilot is being used to develop a new service approach for children with special needs accessing mainstream as well as special schools. This work to develop a new service model is running in parallel to the review of the main framework.

The CNO established a small review team with members from the school nursing services in each of the seven health boards to revisit, revise and refresh the original Framework document. This approach was taken to ensure a consensus approach is achieved with relevant practitioners helping to inform the process.

Three consensus conferences have been held during 2016 with representation from the seven health boards including a Lead Nurse, an Operational Team Manager, a Community Practice Teacher and SCPHN (SN) staff representatives. Delegates also included student SCPHN (SNs), Higher Education Institute nurse education representatives and Public Health Wales. These events indicated that currently school nurses spend the majority of their time on vaccinations and immunisation programmes, doing developmental checks and child safeguarding. A strong desire was expressed to extend their role to promote healthy lifestyle choices.

In parallel, to ensure the work maintained a 'rights based approach', a consultation with children and young people was undertaken by Public Health Wales which helped establish what children want from their school nurses.

Informed by the above, work is currently underway to draft, by December, a refreshed document that will both guide professional practice and advise health boards of the Welsh Government's expectations by setting minimum standards for school nursing provision nationally. The revised Framework will support the recently launched Healthy Child Wales

Programme and provide a platform for future work to develop a Healthy Child Wales Programme for older school aged children and young people.

<u>The latest plans on the new neonatal development in Cardiff</u>

Welsh Government has provided capital funding of £7.472m for the initial phase of neonatal services development at UHW. This funding enabled the health board to provide interim facilities following the closure of the neonatal unit due to bacterial infections and also to refurbish the existing unit. The interim solution provided significantly more physical space around the cots than the previous layout with benefits around infection prevention and greater space to undertake clinical interventions. This is replicated in the refurbished unit. The health board is on track to deliver this phase by the end of November 2016.

In terms of the further phases of development, the Welsh Government has received the business case for the next phase of development of obstetric and neonatal facilities at UHW which is currently undergoing scrutiny. The business case submitted will allow for the expansion to allow for an additional 1,000 births, with the provision of an additional theatre and nine obstetric beds, and increasing the number of commissioned neonatal cots from the existing 28 up to 42.

<u>Together for Children and Young People Programme</u>

In addition, we wish to clarify one point relating to our evidence session. During the session a question was asked about the governance arrangements in place for the Together for Children and Young People Programme following comments by the Children's Commissioner for Wales. Not having been present during the Commissioner's evidence giving, Dr Watkins' response referred to the Welsh Government's arrangements to oversee and drive forward our Together for Mental Health Strategy Delivery Plan. However, having reviewed the transcript of the Commissioner's evidence we now appreciate that the point raised related specifically to the frequency of meetings for the Expert Reference Group set up as part of the Children and Young People Programme. The Expert Reference Group is chaired by Prof Sue Bailey and was always intended to operate primarily as a virtual group - although it has met once. We are assured that members of the virtual group routinely receive all board papers and all programme products for their comments. In future, the intention is for this group to meet in person twice a year and the next meeting is scheduled for December 2016.

We hope you find these responses helpful.

Yours sincerely,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AC/AM**
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Social Services and Public Health

**Carl Sargeant AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**
**Cabinet Secretary for Communities and Children**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/P/CS/5677/16

Lynne Neagle AM
Chair – CYPE Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

5th October 2016

Dear Lynne

Thank you for your letter of 15 September seeking further information on the timeframe for the completion of the 10 year Early Years, Childcare and Play workforce plan.

My officials are currently working through the policy and financial implications of a number of policy developments as indicated in my letter of 31st August. It is anticipated this work will be completed to enable publication of the final plan in the Spring 2017.

Yours sincerely

**Carl Sargeant AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.



We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 4.3

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth leol a Chymunedau

National Assembly for Wales
Equality, Local Government and Communities Committee

Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Llywodraeth Cymru

7 Hydref 2016

Annwyl Kirsty,

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau wrthi'n cynnal gwaith craffu ôl-ddeddfu ar Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (y Ddeddf). Amgaeaf y cylch gorchwyl y mae'r Pwyllgor wedi cytuno arno. Yn rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn ailystyried addysg ar berthnasoedd iach, gan gynnwys a oes digon yn cael ei wneud mewn lleoliadau addysg i sicrhau y datblygir dull trwy'r ysgol gyfan o herio trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Efallai y cofiwch fod llawer o drafod wedi bod, yn ystod hynt y Bil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (a arweiniodd at y Ddeddf), ynglŷn â'r cwestiwn a ddylai'r Bil wneud darpariaeth ar gyfer addysg orfodol ar berthnasoedd iach. Ym marn y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar y pryd, nid oedd darpariaeth o'r fath yn angenrheidiol o ystyried y byddai cynigion a gyflwynwyd gan yr Athro Donaldson yn dilyn ei adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, pe byddent yn cael eu derbyn, yn arwain at gynnwys perthnasoedd iach mewn unrhyw gwricwlwm newydd a fyddai'n cael ei ddatblygu. Rhoddodd y Gweinidog ymrwymiad y byddai ef a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd yn gweithio gyda'r sector trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i archwilio sut y gallai gyfrannu at ddatblygu'r gwaith hwn. Rydym yn deall bod gwaith ar y gweill erbyn hyn i ddatblygu cwricwlwm newydd a bod y Rhwydwaith Ysgolion Arloesi wedi'i sefydlu.

Mae'r rhai a ymatebodd i ymgynghoriad y Pwyllgor wedi codi pryderon ynghylch dull Llywodraeth Cymru, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, o ymdrin ag addysg ar berthnasoedd iach. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â'r ffaith nad yw'r canllawiau'n rhai gorfodol (yn enwedig o gofio mai'r cynnig yn y **Papur Gwyn gwreiddiol ar y ddeddfwriaeth** oedd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

sicrhau bod addysg ar berthnasoedd iach yn cael ei chyflwyno ym mhob ysgol), yn ogystal ag anghysondeb rhwng sefydliadau, a dryswch ynghylch y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gyflwyno adroddiad ar y modd y mae ysgolion yn gweithredu'r canllawiau.

Cyhoeddwyd y **Canllaw Arferion Da: Dull Addysg Gyfan o fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru** (a ddatblygwyd ar y cyd â Chymorth i Fenywod Cymru) ym mis Hydref 2015. Roedd y Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyflwyno adroddiad ar sut y maent yn mynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn eu sefydliadau addysgol, gan gynnwys drwy addysg rhyw.

Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor yn ei waith, byddem yn croesawu tystiolaeth gennych chi ynglŷn â'r canlynol:

- A fydd addysg am berthnasoedd iach yn cael ei chynnwys yn y maes dysgu a phrofiad 'iechyd a lles' a gynigir gan yr Athro Donaldson? Os na, a fydd yn cael ei chynnwys yn unrhyw un o'r pum maes arall?
- Sut mae'r 120 o Ysgolion Arloesi (sydd wedi cael y dasg o ddatblygu'r cwricwlwm newydd) yn rhoi'r Canllaw Arferion Da ar waith?
- Pryd y bydd awdurdodau lleol yn dechrau cyflwyno adroddiadau ar y modd y mae ysgolion yn gweithredu'r Canllaw Arferion Da?
- Sut bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod addysg ar berthnasoedd iach yn gyson rhwng sefydliadau ac yn briodol i oed y disgyblion?
- Pryd y bydd adolygiad thematig Estyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael ei gynnal?
- A ddylai pob sefydliad addysg fod wedi gweithredu'r Canllaw Arferion Da erbyn rhyw ddyddiad targed penodol?
- Sut y bwriedir monitro pa mor effeithiol yw addysg ar berthnasoedd iach?
- Sut bydd y materion hyn yn cael sylw mewn sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch?

Bydd y Pwyllgor yn cwblhau ei waith casglu tystiolaeth ar 19 Hydref, pan fydd yn clywed gan Carl Sargeant AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros gam-drin domestig, trais ar sail rhywedd a thrais rhywiol. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ymateb cyn gynted ag y bo'n ymarferol ac mor agos at y dyddiad hwn â phosibl.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Lynne Neagle AC, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, er gwybodaeth.

Cofion cynnes

John

John Griffiths AC / AM
Cadeirydd / Chair

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015**

Bydd y Pwyllgor yn edrych ar y cynnydd a wnaed o ran gweithredu darpariaethau'r Ddeddf a'i effaith hyd yma. Yn benodol, bydd y Pwyllgor yn ystyried:

- I ba raddau y mae'r dull o fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gwella o ganlyniad i'r rhwymedigaethau yn y Ddeddf?
- Beth yw'r dulliau mwyaf effeithiol o gasglu safbwyntiau a phrofiadau goroeswyr? A oes trefniadau ar waith i gasglu'r profiadau hyn, ac i ba raddau y caiff y wybodaeth ei defnyddio i helpu fel sail i weithredu darpariaethau'r Ddeddf?
- A yw'r rhai sy'n goroesi camdriniaeth yn dechrau profi ymatebion gwell gan awdurdodau cyhoeddus o ganlyniad i'r Ddeddf, yn enwedig y rhai sydd angen gwasanaethau arbenigol?
- A oes gan y Cynghorydd Cenedlaethol ddigon o bŵer ac annibyniaeth ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu?
- I ba raddau y mae'r canllaw arfer da i berthnasau iach yn dylanwadu'n llwyddiannus ar y gwaith o ddatblygu dull ysgol gyfan i herio trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol?

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon